

Cod Ymarfer ar Addysg, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Gyrfaal

Cod Ymarfer 04: 2024 Fersiwn 1.0

Mewn grym o: 1 Chwefror 2024 ymlaen



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Dyddiad	Yn Disodli	Disgrifiad o'r Newid
1 Chwefror 2020.	2018 Fersiwn.	Adlewyrchu newidiadau i strwythurau adrodd ac adroddiadau trwy'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn lle'r Matrix Quality Standard.
1 Chwefror 2024	2018 Fersiwn 1.1	Diweddariad Cyfnodol. Dim newidiadau sylweddol.

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd Gan	Dyddiad y Cymeradwywyd	Amllder Adolygu
Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.	Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig.	21 Ionawr 2024.	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Cod Ymarfer ar Addysg, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Gyrfaoel



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Mae'r Cod yn disgrifio'r ddarpariaeth addysg, gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaoel sydd ar gael i fyfyrwyr a graddedigion.

Rhagarweiniad

1. Mae Addysg, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Gyrfaoel (CEIG) yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau sy'n ymwneud â sgiliau cyflogadwyedd a datblygiad personol, ymchwilio a chynllunio gyrfaoel, rheolaeth yrfaol, dysgu seiliedig ar waith a phrofiad sy'n berthnasol i'r gwaith. Mae CEIG yn rhan greiddiol o'r profiad addysgu a dysgu, ac mae hefyd yn effeithio ar faterion sefydliadol allweddol, megis recriwtio, dal gafael ar fyfyrwyr, cyflogadwyedd, profiad gwaith ac ehangu cyfranogiad ac ehangu mynediad.
2. Mae gweithgareddau CEIG yn cefnogi sawl amcan strategol yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, y Strategaeth Addysgu a Dysgu, Cyflogadwyedd, Ehangu Mynediad, Cysylltiadau Dinesig a Strategaethau Cynaliadwyedd, a'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Mae CEIG hefyd yn rhan o godau ymarfer eraill, gan gynnwys y cod ymarfer ar ddysgu ar leoliad a'r cod ymarfer sy'n ymwneud â chymeradwyo rhaglenni.

Amcanion Addysg, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Gyrfaoel ym Mhrifysgol Bangor

3. Trwy amrywiol brosesau, profiadau a chyfleusterau, mae bwriad i CEIG wneud y canlynol:
 - Cefnogi myfyrwyr a graddedigion i ddatblygu offer effeithiol i reoli eu proses gydol oes hwythau o ddatblygiad personol a rheoli gyrfaoedd.
 - Galluogi myfyrwyr a graddedigion i baratoi at y dyfodol a gwneud penderfyniadau effeithiol a hynny'n seiliedig ar ddealltwriaeth glir ohonynt eu hunain o ran y cyfleoedd presennol a chyfleoedd y dyfodol.
 - Galluogi myfyrwyr a graddedigion i adnabod, datblygu a chaffael y sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen i gystadlu'n llwyddiannus yn y farchnad lafur i raddedigion.
 - Galluogi myfyrwyr a graddedigion i ystyried a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â menter a chyflogadwyedd, a chefnogi myfyrwyr a graddedigion sy'n dymuno ystyried entrepreneuriaeth.
 - Hybu menter ac entrepreneuriaeth ymysg myfyrwyr a graddedigion er mwyn hwyluso'r ffordd i fyfyrwyr a graddedigion ddechrau busnesau newydd.
 - Cefnogi datblygiad economaidd a ffyniant y rhanbarth trwy ddarparu a chyflenwi myfyrwyr a graddedigion sy'n fedrus, yn wybodus ac yn barod ar gyfer gwaith.
 - Cefnogi ymrwymiad Prifysgol Bangor i feithrin cydweithrediad gyda diwydiant yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol.

4. Er mwyn cyflawni ei hamcanion, bydd darpariaeth CEIG fel a ganlyn:

•**Diduedd:** Rhoddir cyngor, arweiniad a gwybodaeth yn ddiuedd, i alluogi'r myfyrwyr i wneud eu dewisiadau personol hwythau.

•**Cleient-ganolog:** Cyngor, arweiniad a gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar ofynion y myfyrwyr / graddedigion unigol.

•**Cyfrinachol:** Cedwir cofnodion a gwybodaeth am y cleientiaid yn unol â gofynion y Deddfau newydd sy'n ymwneud â Diogelu Data Cyffredinol a Rhyddid Gwybodaeth (GDPR).

•**Cydweithredol:** Caiff gweithgareddau CEIG eu datblygu a'u cyflwyno ar y cyd â'r Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd (CES), y colegau a'r ysgolion academaidd, Undeb Myfyrwyr Bangor, myfyrwyr, graddedigion a phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys cyflogwyr ac asiantaethau eraill.

•**Hygyrch:** Caiff yr adnoddau a'r gweithgareddau eu datblygu a'u cynnig yn unol â rheoliadau hygyrchedd y Deyrnas Unedig a'r sefydliad, er mwyn caniatáu ac annog mynediad a chyfranogiad llawn.

•**Dwyeithog** (Cymraeg/Saesneg): Yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Brifysgol, darperir holl wybodaeth, hysbysiadau ac adnoddau Prifysgol Bangor yn ddwyieithog. Mae apwyntiadau, gweithdai a digwyddiadau ar gael yn Gymraeg i ddiwallu galw'r myfyrwyr a'r graddedigion.

•**Sicrhau Ansawdd:** Caiff y gwasanaethau a'r gweithgareddau eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol a sicrhau ansawdd trwy werthuso a throsolwg rheolaidd. Yn ogystal, caiff gwasanaethau craidd CEIG eu harchwilio'n ffurfiol drwy Safon Ansawdd Aelodaeth AGCAS (bob tair blynedd a'i hadolygu'n flynyddol).

•**Eglur:** Hyrwyddir darpariaeth CEIG a'r canlyniadau arfaethedig i bob grŵp cleient (darpar fyfyrwyr, y myfyrwyr presennol a graddedigion) trwy gyfathrebu a gydag adnoddau perthnasol, gan gynnwys prosiectws y Brifysgol, gwefannau, cylchlythyrau, taflenni/taflenni, y cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau hyrwyddo, Cyswllt Gyrfa, a thrwy'r colegau a'r ysgolion.

Cyflwyno Addysg, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Gyrfaol

5. Cyflwynir CEIG trwy amrywiaeth eang o brosesau a gyda grŵp amrywiol o bartneriaid. Caiff gwasanaethau a gweithgareddau cyflogadwyedd CEIG eu darparu gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Fodd bynnag, cynhelir amrywiaeth eang o weithgareddau CEIG yn yr ysgolion a'r colegau academaidd trwy fentrau o dan arweiniad adrannau eraill o'r Brifysgol.

Gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Gyrfaol

6. Ymhlith gwasanaethau CEIG y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd mae addysg, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaol, menter ac entrepreneuriaeth, gwasanaethau i gyflogwyr, gwasanaethau i raddedigion, cefnogaeth gyda phrofiad gwaith a lleoliadau gwaith, datblygu a hyrwyddo gwirfoddoli, dilyn eraill wrth eu gwaith a swyddi rhan-amser a swyddi i raddedigion.

7. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn darparu CEIG ar y cyd ac yn allgyrsiol mewn partneriaeth â'r ysgolion academaidd a'r colegau, gan gynnwys sesiynau cyflogadwyedd ar yr

amserlen, paratoi ac adolygu lleoliadau, a chefnogaeth gyda digwyddiadau a mentrau sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd.

8. Mae gwasanaethau CEIG y Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd ar gael am ddim i bob myfyriwr cofrestredig ar gwrs sy'n gymwys i gael mynediad at wasanaethau Prifysgol Bangor, ac i raddedigion cyrsiau cymwys am hyd at dair blynedd ar ôl graddio.

Darpariaeth sy'n Seiliedig ar Gwricwlwm

9. Yn y cwricwlwm academiaidd, caiff darpariaeth a deilliannau CEIG eu disgrifio ar fanylebau'r rhaglenni a'r deilliannau dysgu.

10. Defnyddir data ynglŷn â pharodrwydd am yrfa i adolygu, datblygu a chanolbwyntio CEIG yn y cwricwlwm.

Rolau a Chyfrifoldebau

11. Y Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd yn y Gwasanaethau Myfyrwyr, sy'n bennaf gyfrifol am CEIG. Caiff gwaith y Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd ei dywys gan Strategaeth Gyflogadwyedd y sefydliad a safonau proffesiynol y Deyrnas Unedig.

Rôl y Sefydliad

12. Bydd y Sefydliad yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi gofynion CEIG gan gydnabod rôl allweddol y Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd o ran datblygu a gwella cyflogadwyedd ymhlith myfyrwyr ac israddedigion cymwys.
- Datblygu targedau a meincnodau priodol yn y sefydliad ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau CEIG.
- Cefnogi a monitro gwasanaethau CEIG trwy strategaethau a chynlluniau cyflogadwyedd perthnasol, gan gynnwys Cynllun Strategol, Strategaeth Addysgu a Dysgu o dan Arweiniad Myfyrwyr a Chynlluniau Ffioedd a Mynediad y Brifysgol.
- Sicrhau y caiff buddiannau CEIG eu cynrychioli mewn fforymau mewnol priodol sy'n gwneud penderfyniadau, i hyrwyddo CEIG ac i alluogi'r Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd i gydweithio'n glosiach â'r ysgolion a'r colegau academiaidd ac Undeb y Myfyrwyr.

Rôl y Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd

13. Bydd y Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd:

- Yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau unigol i **myfyrwyr a graddedigion** i ddatblygu, gwella a hwyluso mentrau i ddatblygu sgiliau. Ymhlith y rheini mae Gwobr Cyflogadwyedd Bangor, rhaglenni interniaeth â chymorth, cyfleoedd a hyrwyddir trwy borth ar-lein y myfyrwyr, cefnogi profiad gwaith

pwrpasol, mentrau menter ac entrepreneuriaeth y myfyrwyr, a chydabyddiaeth i rolau sy'n berthnasol i waith a hyfforddiant cysylltiedig.

- Gweithio gyda'r **ysgolion a'r colegau academaidd** i gefnogi a datblygu darpariaeth ac adnoddau priodol i addysg yrfaol a dysgu seiliedig ar waith fel rhan o ddarpariaeth gyflogadwyedd yr ysgol.
- Gweithio gyda'r **Swyddfa Gynllunio** i hyrwyddo, casglu, dadansoddi a rhannu data cyflogadwyedd sefydliadol, gan gynnwys parodrwydd at yrfa a'r arolwg o Ddeilliannau Graddedigion.
- Sicrhau bod y Sefydliad, yr ysgolion a'r colegau academaidd a'r myfyrwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau o ran **cyflogadwyedd a'r farchnad lafur i raddedigion**.
- Datblygu a chynnal **rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cynhwysfawr** gyda gwasanaethau ac asiantaethau cyfarwyddo eraill priodol.
- Ar y cyd ag **adrannau eraill o fewn y Brifysgol sy'n ymwneud â chyflogwyr**, bydd yn datblygu ac yn cynnal cysylltiadau â chyflogwyr rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod eu hanghenion a'u safbwyntiau yn cael eu hystyried, a'u deall a'u bod yn dylanwadu ar y ddarpariaeth, lle bo'n briodol.
- Cynnal cysylltiadau clos gydag **Undeb y Myfyrwyr** o ran 'profiad ehangach y myfyrwyr', a chyfeirio'n benodol at ddarparu profiad gwaith, cyfleoedd cyflogaeth taledig, rhaglenni gwirfoddoli a hyrwyddo materion cyflogadwyedd ar y cyd.
- Gweithio ar y cyd â **Gwasanaethau Myfyrwyr** eraill i sicrhau bod CEIG yn cofleidio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant - gan gefnogi, hyrwyddo a hyrwyddo anghenion a dyheadau cymuned amrywiol y myfyrwyr.

Rôl yr Ysgolion a'r Colegau Academaidd

14. Bydd yr ysgolion a'r colegau academaidd yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r sgiliau cyflogadwyedd perthnasol sydd ymhlyg ym manylebau'r rhaglenni, a sicrhau bod y deilliannau hynny'n glir i'r myfyrwyr cyfredol, myfyrwyr y dyfodol a darpar-fyfyrwyr.
- Dynodi aelodau perthnasol o'r staff academaidd i gysylltu â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Bydd yr aelod o'r staff yn bwrw golwg dros yr anghenion ac yn helpu datblygu rhaglen o weithgareddau mewnol a phwrpasol y cytunwyd yn ei chylch ar y cyd i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a gwella'r canlyniadau i raddedigion.
- Cefnogi anghenion y myfyrwyr o ran CEIG trwy ddatblygu elfen sy'n ymwneud â gyrfaoedd/cyflogadwyedd ar eu gwefannau a thrwy gysylltiadau ag adnoddau canolog priodol.
- Sicrhau, gyda chefnogaeth staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd bod y staff sy'n darparu CEIG yn yr ysgolion a'r colegau yn cael cyfleoedd datblygu a'r hyfforddiant priodol
- Cysylltu â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd i ddarparu'r CEIG gorau posib i'w myfyrwyr trwy weithgareddau cyflogadwyedd a ymgorfforwyd, adfyfrio ac asesu.
- Cysylltu â rhanddeiliaid pwnc-benodol gan gynnwys partneriaid yn y diwydiant, cyflogwyr a chyrrff proffesiynol, i lywio a datblygu darpariaeth y cwricwlwm
- Cefnogi'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd i gasglu ac adolygu data perthnasol, a thynnu ar y data i ddatblygu'r cwricwlwm.

Rôl y Myfyrwyr

15. Mae disgwyl i fyfyrwyr wneud y canlynol:

- Cymryd cyfrifoldeb personol am eu cynlluniau gyrfaol, gyda chefnogaeth darpariaeth CEIG y sefydliad sydd ar gael trwy eu hysgolion academiaidd a'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.
- Manteisio'n llawn ar y darpariaethau EICG sydd ar gael trwy'r cwricwlwm a thu hwnt.
- Cymryd rhan yng ngwerthusiadau'r gwasanaeth CEIG a rhoi sylwadau arnynt lle bo'n briodol.
- Adfyfrio ac adolygu eu cynnydd hwythau trwy gofrestru parodrwydd am yrfa a'r offer a'r adnoddau eraill sydd ar gael (e.e. Gwobr Cyflogadwyedd Bangor)

Rôl y Cyflogwyr a'r Partneriaid Allanol

16. Bydd y sefydliad yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod darpariaeth CEIG yn adlewyrchu datblygiadau a newidiadau yn y farchnad gyflogaeth fyd-eang, a hynny trwy gydweithredu clos â phartneriaid allanol a chyflogwyr, yn lleol, ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- Hwyluso a chynnal y cysylltiadau rhwng cyflogwyr a'r Brifysgol a'u cyfraniad ati.
- Hwyluso'r ffordd i gyflogwyr ac eraill sy'n cynnig cyfleoedd roi gwybod am y cyfleoedd sydd ganddynt ym maes cyflogaeth, gwirfoddoli a phrofiad gwaith i gymuned y Brifysgol.
- Annog cyflogwyr a phartneriaethau allanol i gymryd mwy o ran yn y broses o ddarparu CEIG a datblygu a chyflwyno Gwobr Cyflogadwyedd Bangor i wella'r dealltwriaeth o ddisgwyliadau ac anghenion cyflogwyr.
- Datblygu ffyrdd o gyfnewid gwybodaeth yn effeithiol ac o wella'r ddealltwriaeth rhwng cyflogwyr a staff sy'n darparu CEIG.
- Manteisio'n llawn ar brofiad gwaith, dysgu sy'n berthnasol i'r gwaith, a menter ac entrepreneuriaeth, a hyrwyddo hynny i fyfyrwyr, staff a chyflogwyr.
- Gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid allanol i gaffael a rhannu'r Wybodaeth sydd ar gael am y Farchnad Lafur (LMI) o ffynonellau penodol, ynglŷn â marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Sicrhau Ansawdd

17. Darperir CEIG yn unol â'r gofynion mewnol a chenedlaethol. Bydd y systemau Sicrhau Ansawdd yn cynnwys y canlynol:

Datblygu gwasanaethau CEIG a'u darparu'n unol â safonau perthnasol, polisiau a chodau ymarfer cysylltiedig yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

- Darparu gwasanaethau CEIG yn unol â safonau AGCAS, a chyrrff proffesiynol perthnasol eraill.

- Adolygu gwasanaethau CEIG mewn archwiliadau sefydliadol ac archwiliadau mewnol ar yr ysgolion academaidd a'r adrannau gwasanaeth.

Monitro a Gwerthuso

18. Caiff gwasanaethau a gweithgareddau CEIG eu monitro a'u gwerthuso trwy nifer o ddulliau, gan gynnwys y canlynol:

- Y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn gwerthuso'r gwasanaethau craidd CEIG yn rheolaidd gyda data ynghylch defnydd y gwasanaeth, ac adrodd mesurau effaith ac adborth y cleientiaid trwy'r rheolwyr llinell, y pwyllgorau perthnasol ac i'r Bwrdd Gweithredol yn ôl yr angen.
- Adrodd yn flynyddol ar wasanaethau a darpariaeth CEIG yn ôl targedau Cynllun Ffioedd a Mynediad HEFCW y Brifysgol.